YR ATODLEN

Amodau

RHAN 2

Amodau cyn y defnydd cyntaf at ddibenion rheoli ar y ffin

Tirlunio

16.—(1) Rhaid i'r datblygwr gyflwyno "cynllun cynnal a chadw tirlunio" i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cymeradwyaeth berthnasol, a rhaid cael y gymeradwyaeth hon cyn i unrhyw ddefnydd a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i) gychwyn.

(2) Rhaid i'r cynllun cynnal a chadw tirlunio gynnwys—

(a) rhaglen ar gyfer monitro planhigion sy'n methu;

(b) gofyniad—

(i) bod rhaid rhoi planhigion newydd yn flynyddol yn lle unrhyw blanhigion sy'n methu, a dylai'r planhigion newydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth o rywogaethau sy'n ymsefydlu'n llwyddiannus;

(ii) bod rhaid cadw'r tirlunio mor rhydd o chwyn ag sy'n ymarferol;

(iii) y caiff ffensys da byw eu codi i ddiogelu planhigion newydd.